Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

15 Mai, 2020

Annwyl Rieni, Gwarcheidwaid a Disgyblion,

Ar ran staff cyfan yr ysgol, mawr obeithiaf eich bod chi a'ch teuluoedd, fel aelodau o gymuned yr ysgol, yn parhau i gadw'n iach ac yn ddiogel yn ystod yr amgylchiadau eithriadol hyn.

Yr wythnos hon, carwn eich hysbysu o'r isod:

Y Gweinidog Addysg yn datgan 'y ffordd o feddwl' am ddychwelyd i ysgolion

Heddiw, 15.5.20, cyhoeddodd Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru, Kirsty Williams fframwaith sy'n datgan sut mae'n ystyried y cam nesaf i ysgolion fel ymateb i COVID-19. Mae'r fframwaith penderfyniadau ar gyfer y cam nesaf i addysg a gofal plant: ystyriaethau, cynlluniau a heriau yn adeiladu ar y pum egwyddor a gyhoeddwyd gan y Gweinidog fis diwethaf. Cadarnhaf nad oes unrhyw ddyddiad wedi ei gyhoeddi ar gyfer ail-agor graddol ysgolion gan Lywodraeth Cymru.

Am wybodaeth bellach parthed y fframwaith, gweler datganiad y wasg a gyhoeddwyd heddiw (15.5.20) gan Lywodraeth Cymru.

https://llyw.cymru/y-gweinidog-addysg-yn-datgan-y-ffordd-o-feddwl-am-ddychwelyd-i-ysgolion?_ga=2.172957089.349830779.1589551892-74899136.1586353194

Lawnsiad E-Seren

Ddoe (14.5.20) cyhoeddodd Gweinidog Addysgu Llywodraeth Cymru, Kirsty Williams lawnsiad E-seren. Mae'r adnoddau dysgu o bell wedi'u hanelu at gefnogi myfyrwyr Blwyddyn 12 Seren ar eu taith i astudio ym mhrifysgolion gorau Cymru, y DU a'r byd. Ceir amrywiol ddeunyddiau rhyngweithiol i ddysgu o bell, digwyddiadau byw ar-lein, gweminarau, fideos a phodlediadau, pob un yn ymestyn ac yn herio o fewn meysydd pynciau penodol, ac yn eu helpu i ddewis prifysgol ac i wneud cais. Mae'r adnoddau yn galluogi myfyrwyr Blwyddyn 13 Seren i barhau i ddysgu yn eu pwysau, darllen yn eang o amgylch eu cwrs gradd dewisiedig, cael cyngor ac arweiniad am fywyd prifysgol, a chael blas ar astudio mewn prifysgol flaengar wrth iddynt symud o'r ysgol i addysg uwch. Mae'r adnoddau yn darparu gwybodaeth a chymorth gwerthfawr i athrawon, rhieni a gofalwyr. Gweler isod am fanylion pellach
https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/seren-dysgu-o-bell

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Cysylltu gyda disgyblion

Mae'r tiwtoriaid dosbarth wedi cysylltu gydag aelodau eu dosbarth tiwtor drwy " Show My Homework". Bydd y cyswllt yma'n parhau yn wythnosol rhwng y cartref a'r ysgol. Anogaf y dysgwyr i ymateb i'r negeseuon sydd yn cael eu danfon gan eu tiwtoriaid.

Holiadur Chweched Dosbarth

Mae barn ein dysgwyr yn bwysig i ni. Rydym wedi rhannu holiadur ar lein drwy "Show My Homework" ar gyfer dysgwyr blwyddyn 11 presennol yn holi eu barn am y ddarpariaeth ôl-16 yn yr ysgol. Diolchwn rhagblaen am gyd-weithrediad y dysgwyr i gwblhau'r holiadur erbyn heddiw, 15.5.20. Gofynnaf yn garedig i chi sicrhau bod dysgwyr bl 11 wedi ymateb.

Opsiynau TGAU ar gyfer dysgwyr Bl 9

Hysbyswyd rhieni a dysgwyr blwyddyn 9 o opsiynau terfynol TGAU yr wythnos ddiwethaf. Gofynnwn yn garedig bod y dysgwyr wedi cadarnhau eu dewisiadau ar "Show My Homework" erbyn heddiw, 15.5.20.

Byddwch yn derbyn gohebiaeth bellach gennyf dydd Gwener nesaf er mwyn eich hysbysu a'ch diweddaru o unrhyw newyddion a newidiadau i'r drefn. Mae croeso i chi hefyd f'ebostio drwy ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Cadwch yn ddiogel a chymerwch ofal.

Yn ddiffuant,

Rhian Morgan
Pennaeth Dros-Dro

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

15 May, 2020

Dear Parents, Guardians and Pupils,

On behalf of all school staff, I sincerely hope that you and your families, as members of our School community, continue to keep healthy and safe during these exceptional circumstances.

This week, I would like to inform you of the following:

Education Minister sets out "thinking" on return to schools

Today, Welsh Government Education Minister, Kirsty Willliams announced the publication of a document setting out how Welsh Government is considering the next phase for schools, in response to COVID-19.

The decision framework for the next phase of education and childcare builds on the five principles published by the Minister last month.

I confirm that no date for the gradual re-opening of schools has been announced by Welsh Government.

For further information regarding today's announcement, please see below press release published by the Welsh Government on 15.5.2020
https://gov.wales/education-minister-sets-out-thinking-return-schools

E-Seren Launch

Yesterday, Welsh Government Education Minister, Kirsty Willliams announced the launch of E-Seren. The distance learning resources are aimed at supporting Seren Year 12 learners on their journey to study at the leading universities in Wales, the UK, and overseas. You will find a wide range of interactive distance learning materials, live online events, webinars, videos and podcasts, all designed to stretch and challenge learners within specific subject areas, and to help with their university selection and application. The resources enable Seren Year 13 learners to continue learning at their own pace, read widely around their chosen degree course, obtain advice and guidance about university life, and gain insight into studying at a leading university as they make the transition from school into higher education. The resources provide valuable information and guidance for teachers, parents and carers. Please see below for further information.

https://hwb.gov.wales/distance-learning/seren-distance-learning

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Contact with pupils

Form tutors have contacted learners who are in their form group through " Show My Homework". This contact will continue weekly between the home and school. I encourage pupils to respond to the messages that are sent by their form tutors.

Sixth Form Questionnaire

Our learners' views are important to us. We have shared an online questionnaire via "Show My Homework" with our current year 11, asking their views on Post-16 provision in school. We thank learners in advance for their co-operation in completing the questionnaire by today,15.5.20. We kindly ask you to ensure that year 11 learners have responded.

Year 9 GCSE Options

Parents and learners were informed of the final GCSE options last week. We kindly ask you to ensure that learners have confirmed their choices on "Show My Homework" by today, 15.5.20.

Next Friday, you will receive correspondence from me to inform you of the latest news and developments. You are also welcome to e-mail me via ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk.

Look after yourselves and keep safe.

Sincerely,

Rhian Morgan
Acting Headteacher